

Sgrinio am glefyd y cryman- gelloedd a thalasaemia

Llyfryn hawdd ei ddarllen am brofion sgrinio pan rydych
chi'n feichiog



Yn y llyfryn yma

Tudalen



Eich dewis

3



Am y prawf yma

4



Clefyd y cryman-gelloedd
a thalasaemia

6



Canlyniadau'r prawf

10



Eich dewis



Mae gwybodaeth yn y llyfryn yma am brawf sydd ar gael i chi.

Gall y prawf ddod i wybod oes clefyd y cryman-gelloedd neu thalasaemia efallai ar eich babi. Mae'r rhain yn gyflyrau difrifol.

Gall y prawf ddod o hyd i broblemau gyda'ch babi cyn y geni. Efallai fydd y prawf ddim yn dod o hyd i bob problem.

Os byddwn ni'n dod o hyd i broblem yn gynnar gallwn ni roi gwybodaeth i chi neu ddweud wrthyh chi am driniaeth sydd ar gael i chi neu'ch babi.



Chi fydd yn dewis a fyddwch chi'n cael y prawf neu beidio.

Mae'r prawf yn gallu dangos oes angen gofal ychwanegol arnoch chi neu ar eich babi.

Mae'r prawf yn gallu eich helpu i benderfynu am eich gofal pan rydych chi'n feichiog.



Mae croeso i chi siarad gyda'ch bydwraig neu feddyg os ydych chi'n poeni.

Os byddwch chi'n gwrthod y prawf, gall eich babi gael prawf am glefyd y cryman-gelloedd ar ôl iddo gael ei eni.



Am y prawf yma



Fyddwn ni ddim yn dangos canlyniadau'r prawf i neb heblaw am staff iechyd sydd angen eu gweld nhw.



Mae'n bwysig eich bod chi'n dweud wrth eich bydwraig os oes clefyd y cryman-gelloedd neu thalasaemia arnoch chi neu ar un o'ch plant.

Mae'n bwysig hefyd eich bod chi'n dweud wrth eich bydwraig os oes un o'r cyflyrau yma ar dad eich babi neu ar unrhyw un o'i blant.



Bydd y staff iechyd yn gofyn i chi o ba wlad rydych chi a thad eich babi'n dod.

Bydd y staff yn gofyn cwestiynau eraill i'w helpu i benderfynu ydych chi angen prawf ac i wneud y prawf yn iawn.



Rydyn ni'n cynnig prawf sgrinio am glefyd y cryman-gelloedd a thalasaemia i bob menyw.

Mae'r prawf yn golygu tynnu ychydig o'ch gwaed er mwyn dod i wybod a oes posibilrwydd y gallech chi drosglwyddo clefyd y cryman-gelloedd neu thalasaemia i'ch babi.



Gallwch chi gael y prawf gwaed ar unrhyw adeg ond mae'n well ei gael ar yr un pryd â'r profion gwaed eraill yn gynnar yn eich beichiogrwydd.



Clefyd y cryman-gelloedd a thalasaemia



Mae clefyd y cryman-gelloedd a thalasaemia'n gyflyrau difrifol sy'n effeithio ar y gwaed.

Rydych chi'n cael y cyflyrau oddi wrth eich rhieni. Byddan nhw'n para am weddill eich oes.

Mae clefyd y cryman-gelloedd yn gallu achosi anaemia. Mae anaemia'n golygu bod eich gwaed yn cael trafferth cario ocsigen. Gydag anaemia, byddwch chi'n welw, yn flinedig iawn ac yn wan.



Mae clefyd y cryman-gelloedd yn gallu achosi poenau drwg iawn a'ch gwneud chi'n sâl iawn.


Mae'n bosibl rhoi moddion (ffisig) ar ôl y geni i fabi sydd â chlefyd y cryman-gelloedd. Bydd moddion yn helpu i gadw'r babi'n iach.



Mae thalasaemia'n rhoi anaemia difrifol iawn i chi.


Os oes thalasaemia gennych chi byddwch chi angen trallwysiadau gwaed bob 4 i 6 wythnos, a byddwch chi angen moddion am weddill eich oes.

Mae trallwysiad gwaed yn golygu tynnu gwaed o berson iach a'i roi y tu mewn i berson sâl.



Mae clefyd y cryman-gelloedd a thalasaemia'n cael eu trosglwyddo drwy'r genynnau (*genes*).

Ffordd arall o feddwl am enynnau yw fel cod i'ch corff.




Mae pobl sydd ag un genyn anarferol yn unig yn cael eu galw'n gludwyr.

Mae cludwyr yn iach ac nid yw'r cyflwr ar eu gwaed.




Os ydych chi a thad y babi'n gludwyr, efallai bydd y cyflwr ar eich babi pan fydd yn cael ei eni.




Os ydych chi'n gludydd ac mae tad y babi'n gludydd hefyd, mae gan y babi:

- 1 siawns mewn 4 o fod â chlefyd y cryman-gelloedd neu thalasaemia



- 2 siawns mewn 4 o fod yn gludydd hefyd – mae hynny'n golygu y gallai'r babi drosglwyddo'r genyn i'w blant ar ôl tyfu'n oedolyn



- 1 siawns mewn 4 o beidio â chael clefyd y cryman-gelloedd neu thalasaemia




Mae unrhyw un yn gallu bod â'r genyn.
Ond mae'n fwy cyffredin mewn pobl y
mae eu teuluoedd yn dod o:

- Affrica
- y Caribî
- gwledydd Môr y Canoldir
- De America
- De neu Dde-ddwyrain Asia,
- neu'r Dwyrain Canol.



Canlyniadau'r prawf



Byddwch chi fel arfer yn cael y canlyniadau yn ystod eich apwyntiad nesaf.

Os bydd y prawf yn dangos eich bod chi'n gludydd (yn cario) clefyd y cryman-gelloedd neu thalasaemia byddwn ni'n cysylltu â chi.



Os ydych chi'n gludydd ac mae un o'r genynnau anarferol gennych chi, mae'n bwysig iawn fod tad y babi'n cael prawf hefyd.

Os oes gan dad y babi un o'r genynnau anarferol hefyd, byddwn ni'n cynnig ail prawf i chi. Prawf diagnostig yw'r enw arno.



Mae siawns fach mewn un o bob 200 o brofion diagnostig o wneud i chi golli'r babi (erthyliad naturiol).

Os byddwch chi'n cael erthyliad naturiol, fydd y babi ddim yn byw.

Byddwch chi'n cael cyfle i drafod y prawf gyda bydwraig.

Rydych chi'n rhydd i wrthod y prawf yma.



Mae dau fath o brawf diagnostig.

Os ydych chi rhwng wythnosau 11 ac 14 o'r beichiogrwydd, gallwch chi gael prawf samplu filws corionig.

Mae'n cael ei alw'n brawf CVS weithiau.




Os byddwch chi'n cael y prawf mae'n golygu rhoi nodwydd denau iawn yn eich stumog.

Mae'r nodwydd yn tynnu darn bach iawn o'r brych (*placenta*). Y brych sy'n eich cysylltu chi â'r babi.

Gallwn ni wneud profion ar y darn i chwilio am glefyd y cryman-gelloedd neu thalasaemia.



Os ydych chi wedi cyrraedd wythnos 15 (neu'n hwyrach) o'ch beichiogrwydd, gallwch chi gael amniocentesis.



Os byddwch chi'n cael amniocentesis mae'n golygu rhoi nodwydd denau iawn yn eich stumog.

Mae'r nodwydd yn tynnu ychydig o'r hylif sydd o amgylch y babi.

Gallwn ni wneud profion ar yr hylif i chwilio am glefyd y cryman-gelloedd neu thalasaemia.

Dim ond nifer bach iawn o fabanod sydd ag un o'r cyflyrau yma.



Efallai bydd yr ail brawf yma'n dangos bod clefyd y cryman-gelloedd neu thalasaemia ar eich babi.

Os oes clefyd y cryman-gelloedd neu thalasaemia ar eich babi byddwch chi'n cael gwybodaeth am y cyflwr i'ch helpu i benderfynu beth i'w wneud.



Mae'r cyflwr yn waeth ar rai babanod nag y mae ar rai eraill. Nid yw'r prawf yn gallu dweud wrthy'ch chi pa mor ddifrifol fydd cyflwr eich babi chi.

Mae rhai menywod sy'n cael gwybod bod clefyd y cryman-gelloedd neu thalasaemia ar eu babi'n penderfynu gadael i'r beichiogrwydd fynd yn ei flaen.



Mae rhai menywod sy'n cael gwybod bod clefyd y cryman-gelloedd neu thalasaemia ar eu babi'n penderfynu dydyn nhw ddim eisiau i'r beichiogrwydd fynd yn ei flaen. Maen nhw'n cael erthyliad sy'n golygu fydd y babi ddim yn byw.



Os oes clefyd y cryman-gelloedd neu thalasaemia ar eich babi byddwch chi'n cael help gennym i benderfynu ydych chi eisiau erthyliad neu beidio.

Eich penderfyniad chi yw hwn.



Os byddwch chi'n symud tŷ mae'n bwysig eich bod chi'n dweud wrth eich bydwraig.